OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 1511

# Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2009.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd yn unol ag adran 11(2) o'r Ddeddf(**1**);

ystyr "Byrddau Iechyd Lleol blaenorol" ("*former Local Health Boards*") yw'r ddau Fwrdd Iechyd Lleol ar hugain a sefydlwyd ar 10 Chwefror 2003 gan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003(**2**);

ystyr "Deddf 1989" ("*the 1989 Act*") yw Deddf Plant 1989(**3**);

ystyr "y dyddiad perthnasol" ("*the relevant date*") yw 1 Hydref 2009;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "gofal parhaus" ("*continuing care*") yw gofal a ddarperir dros gyfnod estynedig o amser i berson er mwyn bodloni anghenion iechyd corfforol neu feddyliol sydd wedi digwydd o ganlyniad i salwch;

mae'r ymadrodd "Gorchymyn BILl" i'w ddehongli'n unol â'r ymadrodd "LHB Order" yn adran 11(2) o'r Ddeddf;

mae i'r ymadrodd "gwasanaethau deintyddol sylfaenol" yr ystyr sydd i'r ymadrodd "primary dental services" yn adran 56 o'r Ddeddf;

mae i'r ymadrodd "gwasanaethau fferyllol" yr ystyr sydd i'r ymadrodd "pharmaceutical services" yn adran 80(8) o'r Ddeddf;

mae i'r ymadrodd "gwasanaethau meddygol sylfaenol" yr ystyr sydd i'r ymadrodd "primary medical services" yn adran 41 o'r Ddeddf; ac

mae i'r ymadrodd "gwasanaethau offthalmig cyffredinol" yr ystyr sydd i'r ymadrodd "general ophthalmic services" yn adran 71(10) o'r Ddeddf.

(**1**) Sefydlwyd Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys o dan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/148 (Cy.18)) a sefydlwyd BILl Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, BILl Aneurin Bevan, BILl Prifysgol Betsi Cadwaladr, BILl Prifysgol Caerdydd a'r Fro, BILl Cwm Taf a BILl Hywel Dda o dan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/778 (Cy. 66 )).

(**2**) O.S. 2003/148 (Cy.18).

(**3**) 1989 p.41.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, ac yn ddarostyngedig i reoliad 3, y personau sy'n preswylio fel arfer yn yr ardal y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei sefydlu ar ei chyfer yw'r personau y mae Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol amdanynt mewn unrhyw flwyddyn.

(3) Yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd y gall Gweinidogion Cymru ei roi o ran unrhyw achos penodol neu ddosbarthau o achos, os oes amheuaeth o ran ble y mae person yn preswylio fel arfer at ddibenion paragraff (2) —

(a) mae'r person i'w drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y cyfeiriad a roddwyd ganddo, yn gyfeiriad y mae'r person fel arfer yn preswylio ynddo, i'r person neu'r corff sy'n darparu gwasanaethau ar ei gyfer;

(b) os nad yw'r person yn rhoi unrhyw gyfeiriad o'r fath, mae ef i'w drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y cyfeiriad y mae'n ei roi, yn gyfeiriad mwyaf diweddar y person, i'r person neu'r corff sy'n darparu gwasanaethau ar ei gyfer;

(c) os na ellir cadarnhau cyfeiriad arferol y person o dan is-baragraffau (a) a (b) uchod, mae ef i gael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn yr ardal y mae'r person yn bresennol ynddi.

**Eithriad i reoliad 2(2)**

**3.**—(1) Mae Bwrdd Iechyd Lleol gwreiddiol yn parhau i fod yn gyfrifol am y personau a bennir ym mharagraff (3) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn yr ardal y sefydlwyd ef ar ei chyfer, yn yr amgylchiadau a nodir ym mharagraff (2).

(2) Dyma'r amgylchiadau—

(a) ar neu ar ôl 1 Gorffennaf 2007

(i) bod y Bwrdd Iechyd Lleol gwreiddiol wedi gwneud trefniant wrth arfer ei swyddogaethau, neu

(ii) bod awdurdod lleol wedi gwneud trefniant

y darperir gwasanaethau, yn rhinwedd y trefniant hwnnw, ar gyfer person y mae paragraff (3) yn gymwys iddo, sy'n golygu neu'n cynnwys darparu llety sydd wedi ei leoli yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol arall neu Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol; a

(b) bod y person drwy hynny'n byw yn y llety.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys

(a) i berson sydd o dan 18 oed ac

(i) sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol o fewn ystyr adran 22(1) o Ddeddf 1989,

(ii) sy'n blentyn perthnasol o fewn ystyr adran 23A o Ddeddf 1989,

(iii) sy'n gymwys i gael cyngor a chymorth o dan adran 24(1A) neu adran 24(1B) o Ddeddf 1989,

(iv) sydd wedi ei leoli mewn ysgol yn unol â datganiad o anghenion addysgol arbennig a wnaed o dan adran 324 o Ddeddf Addysg 1996(**4**) ac sy'n enwi'r ysgol, neu

(v) y mae arno angen llety er mwyn bodloni anghenion gofal parhaus; a

(b) i berson o dan 21 oed a oedd, yn union cyn ei ben-blwydd yn ddeunaw oed, yn berson a oedd yn dod o fewn un o is-gategorïau is-baragraff (a).

(4) Nid yw cyfrifoldeb Bwrdd Iechyd Lleol gwreiddiol o dan y rheoliad hwn yn ymestyn i'w swyddogaethau mewn perthynas â gwasanaethau meddygol sylfaenol, gwasanaethau deintyddol sylfaenol, gwasanaethau fferyllol a gwasanaethau offthalmig cyffredinol.

(**4**) 1996 p.56.

(5) Yn y rheoliad hwn ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol gwreiddiol" ("*Local Health Board of origin*") yw'r Bwrdd Iechyd Lleol a wnaeth y trefniant o dan is-baragraff (2)(a)(i) neu'r Bwrdd Iechyd Lleol sy'n cyfateb i ardal ddaearyddol yr awdurdod lleol a wnaeth y trefniant o dan is-baragraff (2)(a)(ii).

**Swyddogaethau i'w harfer gan Fyrddau Iechyd Lleol**

**4.**—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 5, ac yn ddarostyngedig i unrhyw waharddiadau neu gyfyngiadau mewn Gorchymyn BILl, y swyddogaethau i'w harfer gan Fwrdd Iechyd Lleol o'r dyddiad perthnasol yw:

(a) swyddogaethau Awdurdodau Iechyd blaenorol yng Nghymru a drosglwyddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2003(**5**) ac y cyfarwyddwyd Byrddau Iechyd Lleol blaenorol gan Reoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) 2003(**6**) i'w harfer ar 1 Ebrill 2003; a

(b) swyddogaethau Gweinidogion Cymru, i'r graddau nad ydynt yn swyddogaethau o dan is-baragraff (a), fel a bennir yn yr Atodlen.

(2) Mae'r swyddogaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(a) yn benodol yn cynnwys y cyfryw swyddogaethau ag a bennir yn yr Atodlen ond nid ydynt wedi eu cyfyngu iddynt.

**Cyfyngu ar arfer swyddogaethau gan Fyrddau Iechyd Lleol**

**5.** Nid oes dim yn y Rheoliadau hyn i'w gymryd fel pe bai'n rhoi cyfarwyddiadau ynghylch arfer unrhyw swyddogaethau a roddwyd i Weinidogion Cymru neu a freiniwyd ynddynt mewn cysylltiad ag —

(a) gwneud unrhyw Orchymyn neu Reoliadau; neu

(b) rhoi unrhyw gyfarwyddiadau.

**Dirymiadau**

**6.** Dirymir y Rheoliadau a ganlyn —

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Swyddogaethau Awdurdodau Iechyd a Threfniadau Gweinyddol) 1996 (O.S. 1996/708);

Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/150 (Cy.20));

Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003/816 (Cy.101));

Rheoliadau Bwrdd Iechyd Lleol Powys (Swyddogaethau Ychwanegol) 2003 (O.S. 2003/815 (Cy.100)); a

Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2007 (O.S. 2007/315 (Cy.29)).

**Diwygiadau canlyniadol**

**7.** Gwneir y diwygiadau canlyniadol a ganlyn—

(**5**) O.S. 2003/813 (Cy.98). Darparwyd gan y Gorchymyn hwn fod holl swyddogaethau Awdurdodau Iechyd yng Nghymru, o 1 Ebrill 2003, wedi cael eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod pob Awdurdod Iechyd o'r fath wedi ei ddiddymu.

(**6**) Darparwyd gan Reoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/150 (Cy.20)) bod, o 1 Ebrill 2003, swyddogaethau Awdurdodau Iechyd blaenorol yng Nghymru, a gafodd eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag O.S. 2003/813 (Cy.98), wedi eu gwneud (yn ddarostyngedig i eithriadau penodol mewn perthynas â swyddogaethau comisiynu arbenigol) yn arferadwy gan Fyrddau Iechyd Lleol.

(a) ym mharagraff 16 o Ran 2 o Atodlen 2 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006(**7**)—

(i) yn lle "Local Health Boards (Functions) (Wales) Regulations 2003" rhodder "Local Health Boards (Directed Functions) (Wales) Regulations 2009",

(ii) yn is-baragraff (c) yn lle "3(1)" rhodder "4",

(iii) dileer is-baragraff (d); a

(b) yn y Cyfarwyddiadau i Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe a Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy (2006) a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2006, yng nghyfarwyddyd 2(1) yn lle "Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) 2003" rhodder "Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009".

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

18 Mehefin 2009

(**7**) 2006 p.43.